a dygyuoꝛ y llys y am hynny am eu penn. Ar hynny kyuodi a oꝛuc ynteu a mynet allan. A phan da6 allan. tri llydyn a welei. Sef kyfry6 lydnot a welei. baed coet. a charnen coet a chꝛyn ll6dyn da gyt ac 6ynt. A bꝛeiſc oed yn yꝛ oet oed arna6. Ie heb ef h6n a gymeraf i attaf ac a baraf y uedydya6. Ae dara6 ar hut lath yny uyd yn uab bꝛaſwineu teledi6. Sef en6 a dodet ar h6nn6 hycht6n. A ch6itheu yꝛ un a uu uaed coet o honaỏch yꝛ llyned. bit vleid aſt eleni. ar h6nn a uu garnen yꝛ llyned. bit vleid eleni. Ac ar hynny eu tara6 ar hutlath yny uydant bleid a bleidaſt. Ac anyan yꝛ aniueileit yd y6ch yn eu rith bit y ch6itheu. A byd6ch yma vl6ydyn yꝛ dyd hedi6 y dan y paret h6nn. Yꝛ undyd ym penn y vl6ydyn llyma y cly6ei dygyuoꝛ a chyuarthua c6n y dan baret yꝛ yſtauell. Ynteu a gyſuodes allan. a phan da6 llyma y g6elei bleid a bleidaſt a chꝛubothon cryf y gyt ac 6ynt. H6nn a gymeraf i heb ef ac a baraf * y uedydya6. Ac y mae y en6 yn bara6t. Sef y6 h6nn6 bleid6n. Y tri meib yſſyd y ch6i ar tri hynny ynt. Tꝛi meib giluaeth6y enn6ir. tri chenryſſedat kywir. bleid6n. hyd6n. hychd6n hir. Ac ar hynny eu tara6 6ynteu ell deu ar hutlath yny uydant yn eu cna6t e hun. Ha wyꝛ heb ef oꝛ g6naetha6ch gam y mi diga6n y bua6ch ymhoen. a che6ilyd ma6ꝛ a ga6ſſa6ch. bot plant y bop un o hona6ch oe gilyd. Per6ch enneint yꝛ g6yꝛ a golchi eu penneu ac eu kyweirya6. a hynny a berit udunt. A g6edy ymgyweirya6 o honunt atta6 ef y kyꝛchyſſant. Ha wyꝛ heb ef tangneued a ga6ſſa6ch a cherennyd a geff6ch. a rod6ch ym gy-

nghoꝛ pa uoꝛỽyn a geiſſỽyf. Arglỽyd heb y gỽydyon uab don haỽd yỽ dy gyghoꝛi. Aranrot uerch don. dy nith uerch dy chỽaer. honno a gyꝛchỽyt attaỽ. Y uoꝛỽyn a doeth y myỽn. A voꝛỽyn heb ef a wyt uoꝛỽn di. Ny ỽnn i arglỽyd amgen nom bot. yna y kymerth ynteu yꝛ hutlath ae chamu. camma di dꝛos honn heb ef. ac ot ỽyt uoꝛỽyn mi a adnabydaf. yna y camaỽd hitheu dꝛos yꝛ huthlath. Ac ar y cam hỽnnỽ adaỽ mab bꝛaſuelyn maỽꝛ aoꝛuc. Yn ol diaſpat y mab kyꝛchu y dꝛỽs a oꝛuc hi. Ac ar hynny adaỽ y ryỽ bethan o honei. A chyn kael o neb *gỽe*let yꝛ eil olỽc arnei. gỽydyon ae kymerth. Ac a dꝛoes ỻenn o bali yn y gylch ac ae cudyaỽd. Sef ỻe y cudyaỽd y myỽn ỻaỽꝛ kiſt is traet y wely. Ie heb y math mab mathonỽy mi a baraf uedydyaỽ hỽnn ỽꝛth y mab bꝛaſuelyn. Sef enỽ a baraf arnaỽ. dylan. Bedydyaỽ a wnaethpỽyt y mab. Ac ual y bedydywyt y moꝛ a gyꝛchỽys. Ac yn y ỻe y gyt ac y doeth yꝛ moꝛ. anyan y moꝛ a gauas. a chyſtal y nouyei ar pyſc goꝛeu yn y moꝛ. Ac o achaỽs hynny y gelwit ef. dylan eil ton. ny thoꝛres tonn y danaỽ eiryoet. Ar ergyt y doeth y agheu o honaỽ a uyꝛyaỽd gouannon y ewythyꝛ. a hỽnnỽ a uu dꝛydyd anuat ergyt. Val yd oed wydyon diwarnaỽt yn y wely ac yn deffroi. ef a glywei diaſpat yn y giſt is y dꝛaet. kyn ny bei uchel hi. Kyfuch oed ac y * kigleu ef. Sef a oꝛuc ynteu kyuodi yn gyflym ac agoꝛi y giſt. ac ual y hegyꝛ ef a welei uab bychan yn rỽyuaỽ y ureicheu. o blyc y ỻenn ac yn y gỽaſgaru. Ac ef a gymerth y mab y rỽng y dỽylaỽ. Ac a gyꝛchỽys y dꝛef ac ef ỻe y gỽydyat bot gỽꝛeic a

bꝛonneu genti. ac ymobꝛyn aỽnaeth arwreic ueithꝛyn
y mab. Y mab a uagỽyt y vlỽydyn honno. Ac yn oet
y vlỽydyn hoff oed gantunt y vꝛeiſket bei dỽyulỽyd.
ar eil vlỽydynn mab maỽꝛ oed ac yn gaỻu e hun
kyꝛchu y ỻys. Ynteu e hun wydyon wedy y dyuot
yꝛ ỻyſ a ſynnyỽys arnaỽ. ar mab a ymgeneuinaỽd ac
ef. ac ae caraỽd yñ vỽy noc undyn. Yna y magỽyt
y mab yn y ỻys yny uu pedeir blwyd. a hoff oed
~~y veint~~ y uab wyth mlỽyd uot yn gỹ ureiſcet ac ef.
a diwarnaỽt ef a gerdaỽd yn ol gỽydyon y oꝛymdeith
aỻan. Sef a wnaeth kyꝛchu kaer aranrot ar mab gyt
ac ef. Gỽedy y dyuot yꝛ ỻys kyuodi a oꝛuc aranrot
yn y erbyn ae raeſſaỽu a chyfuarch gỽeỻ idaỽ. Duỽ
a rodo da itt heb ef. Pa uab yſſyd yth ol di heb
hi. Y mab hỽnn mab itti yỽ ~~ef~~ heb ef. Oia ỽꝛ pa
doi arnat ti vyg kewilydyaỽ i. a dilyt vyg kewilyd
ae gadỽ yn gyhyt a hynn. Ony byd arnat ti geỽilyd
uỽy no meithꝛyn o honaf i uab kyſtal a hỽnn. Yſ
bychan a beth vyd dy gewilyd. Pỽy enỽ dy uab
di heb hi. Dioer heb ef nyt oes arnaỽ un enỽ ettwa.
Je heb hi mi a tynghaf dynghet idaỽ na chaffo ef
enỽ yny kaffo gennyf i. Dygaf y duỽ uyg kyffes heb
ef direit wreic ỽyt. ar mab a geiff enỽ kyt boet dꝛỽc
gennyt ti. a thitheu heb ef yꝛ hỽnn yd ỽyt ti ac ae
uar arnat am nath elwir yn uoꝛỽyn. nyth elỽir beỻach
byth yn uoꝛỽyn. Ac ar hynny kerdet ymeith dꝛỽy y lit
a wnaeth. a chyꝛchu kaer dathyl. Ac yno y bu y nos
honno. A thꝛannoeth kyuodi a oꝛuc a chymryt y uab
gyt ac ef. a mynet y oꝛymdeith gan lan y weilgi. rỽng
hynny ac aber menei. Ac yn y ỻe y gỽelas delyſc a

moꝛỽyal hudaỽ long aỽnaeth. ac oꝛ gỽynnon ardelyſc* hudaỽ coꝛdỽal a wnaeth. a hynny llawer. ac eu bꝛithaỽ a oꝛuc hyt na welſei neb lledyꝛ degach noc ef. Ac ar hynny kyweiryaỽ hỽyl ar y long a wnaeth. a dyuot y dꝛỽs poꝛth kaer aranrot ef ar mab yn y llong. Ac yna dechꝛeu llunyaỽ eſgidyeu ac eu gỽniaỽ. ac yna y harganuot oꝛ gaer. Pan wybu ynteu eu harganuot oꝛ gaer. dỽyn eu heilyỽ e hun a oꝛuc a dodi eilyỽ arall arnunt ual nat adnepit. Pa dynyon yſſyd yn y llong heb yꝛ aranrot. Crydyon heb ỽy. Eỽch y edꝛych pa ryỽ ledyꝛ yſſyd gantunt. a pha ryỽ weith a wnaant. Yna y deuthpỽyt attunt. A phan doethpỽyt yd oed ef yn bꝛithaỽ coꝛdwal a hynny yn eureit. Yna y doeth y kennadeu a menegi idi hi hynny. Je heb hitheu. dygỽch ueſſur uyn troet. ac erchỽch yꝛ cryd wneuthur eſgidyeu ym. Ynteu a lunywys yꝛ eſgidyeu. ac nyt ỽꝛth y meſſur. namyn yn vỽy. Dyuot ar eſgidyeu idi. nachaf yꝛ eſgidyeu yn oꝛmod. Ry oꝛmod yỽ y rei hynn heb hi. ef a geiff werth y rei hynn. gỽnaet heuyt rei a uo llei noc ỽynt. Sef a wnaeth ynteu gỽneuthur rei ereill yn llei lawer noc thꝛoet. ac hanuon idi. Dywedỽch idaỽ nyt a y mi y rei hynn heb hi. ef a dywetpỽyt idaỽ hynny. Je heb ynteu. ny lunyaf i eſgydyeu idi yny welỽyf y thꝛoet. A hynny a dywetpỽyt idi. Je heb hi mi a af hyt attaỽ ef. Ac yna y doeth hi hyt y llong. A phan doeth yd oed ef yn llunyaỽ ar mab yn gỽniaỽ. Je arglỽydes heb ef dyd da itt. Duỽ a rodo da itt heb hi. Eres yỽ gennyf na uedꝛut gymedꝛoli ar wneuthur eſgidyeu ỽꝛth ueſſur. Na uedꝛeis heb ynteu. mi ae

metraf weithon. Ac ar hynny llyma y dꝛyỽ yn ſeuyll ar vỽrd y llong. Sef a wnaeth y mab y vỽꝛỽ. ae uedꝛu y rỽng giewyn y eſgeir ar aſgỽꝛn. ffef a wnaeth hitheu chỽerthin. Dioer heb hi yſ llaỽ gyffes y medꝛỽys y lleỽ ef. Ie heb ynteu aniolỽch duỽ itt neur gauas ef enỽ. A da digaỽn yỽ y enỽ. lleỽ llaỽ gyffes yỽ bellach. Ac yna difflannu y gỽeith yn delyſc ac yn ỽimon. Ar gỽeith nys canlynỽys ef hỽy no hynny. Ac oꝛ achaỽs hỽnnỽ y gelỽit ef yn dꝛydyd * eurgryd. Dioer heb hitheu ny henbydy well di o uot yn dꝛỽc ỽꝛthyf i. Ny buum dꝛỽc i ettwa ỽꝛthyt ti heb ef. Ac yna yd ellygỽys ef y uab yn y bꝛyt e hun. Ie heb hitheu minheu a dynghaf dynghet yꝛ mab hỽnn. na chaffo arueu byth yny gỽiſgỽyf i ymdanaw. y ꝛof a duỽ heb ef. handid oth direidi di. Ac ef a geiff arueu. Yna y doethant hỽy parth a dinas dinllef. Ac yno meithꝛyn llew llaỽ gyffes yny allwys marchogaeth pob march. Ac yny oed gỽbyl o bꝛyt a thỽf a meint. Ac yna adnabot a ỽnaeth gỽydyon arnaỽ y uot yn kymryt dihirỽch o eiſſeu meirch ac arueu. Ae alỽ attaỽ a wnaeth. Ha waſ heb ef ni aỽn ui a thi y neges auoꝛy. a byd lawenach noc yd ỽyt. A hynny a wnaf ynheu heb y gỽas. Ac yn ieuenctit y dyd dꝛannoeth kyuodi a wnaethant. a chymryt yꝛ aruoꝛdir y uynyd parth a bꝛynn aryen. Ac yn y penn uchaf y geuyn clūtno. ymgyweiraỽ ar ueirch a wnaethant. A dyuot parth a chaer aranrot. Ac yna amgenu eu pꝛyt a ỽnaethant. A chyꝛchu y poꝛth yn rith deu was ieueinc. eithyꝛ bot yn pꝛudach pꝛyt gwydyon noc un y gỽas. Y poꝛthaỽꝛ heb ef dos ymyỽn a dywet uot yma beird o uoꝛgannỽc.

Y poꝛtha6ꝛ a aeth. Gꝛaessa6 du6 6ꝛthunt geỻ6ng y. myǵn 6y heb hi. Diruawr lewenyd a uu yn eu herbyn. Yneuad a gyweir6yt y u6yta yd aethant. G6edy daruot b6yta. ymdidan a 6naeth hi a g6ydyon. am ch6edleu a chyuar6ydyt. Ynteu wydyon kyuar6yd da oed. G6edy bot yn amser ymada6 a chyuedach. ystaueỻ a gyweir6yt udunt h6y. ac y gyscu yd aethant. Pir bylgeint g6ydyon a gyvodes. Ac yna y gelwis ef y hut ae aỻu atta6. Erbyn pan oed y dyd yn goleuhau yd oed geniweir ac utkyꝛn. a ỻeuein yn y wlat yn gyghan. Pann yttoed y dyd yn dyuot wynt a gly6ynt tara6 dꝛ6s yꝛ ystaueỻ. Ac ar hynny aranrot yn erchi agoꝛi. Kyuodi a oꝛuc y g6as ieuanc ac agoꝛi.* Hitheu a doeth y my6n a moꝛ6yn y gyt a hi. Ha wyꝛda heb hi ỻe dꝛ6c yd ym. Je heb ynteu ni a gly6n utkyꝛn a ỻeuein. a beth a debygy di o hynny. Dioer heb hi ni cha6n welet ỻi6 y weilgi gan bop ỻong ar toꝛr y gilyd. Ac y maent yn kyꝛchu y tir yn gyntaf a aỻont. A pha beth a wna6n ni heb hi. Arglwydes heb y g6ydyon. nyt oes in gyghoꝛ onyt kaeu y gaer arnam. ae chynhal yn oreu a aỻom. Je heb hitheu du6 a [da]lo y6ch. a chynheỻ6ch ch6itheu. Ac yma y keff6ch diga6n o arueu. Ac ar hynny yn ol yꝛ arueu yd aeth hi. A ỻyma hi yn dyuot a d6y uoꝛ6yn gyt a hi. Ac arueu deu 6ꝛ gantunt. Argl6ydes heb ef g6isc ymdan y g6ꝛaync hwnn. A minneu ui ar moꝛynyon a wisgaf ymdanaf inheu. Mi a gly6af odoꝛun y g6yꝛ yn dyuot. Hynny a 6naf yn ỻa6en. A g6isca6 a 6naeth hi ymdana6 ef yn ỻa6en ac yn g6byl. A der6 heb ef wisca6 ymdan y g6ꝛaync h6nn6.

Derỽ heb hi. neur derỽ y minheu heb ef. Diodỽn an harueu weithon. nyt reit in ỽꝛthunt. Och heb hitheu paham. llyna y llynghes yg kylch y ty. Ha wreic nit oes yna un llynghes. Och heb hitheu pa ryỽ dygyuor a uu o honei. Dygyuoꝛ heb ynteu y toꝛoꝛri dy dynghetuen am dy uab. ac y geiſſaỽ arueu idaỽ. ac neur gauas ef arueu heb y diolwch y ti. Y rof i a duỽ heb hitheu gỽꝛ dꝛỽc ỽyt ti. Ac ef a allei y llawer mab colli y eneit am y dygyuoꝛ a bereiſt ti yn y cantref hỽnn hediỽ. A mi a tynghaf dynghet yꝛ mab heb hi na chaffo gỽꝛeic vyth oꝛ genedyl yſſyd ar y dayar honn yꝛ aỽꝛ honn. Je heb ynteu direit wreic uvoſt eiryoet. ac ny dylyei neb uot yn boꝛth itt. a gỽꝛeic a geiff ef ual kynt. Hỽynteu a doethant att vath uab mathonỽy. A chỽynaỽ yn luttaf yn y byt rac aranrot a ỽnaethant. A menegi ual y paryſſei yꝛ arueu idaỽ oll. Ie heb y math. keiſſỽn ninneu ui a thi (oc) an hut an lletrith hudaỽ gỽꝛeic idaỽ ynteu oꝛ blodeu. Ynteu yna a meint gỽꝛ yndaỽ. Ac yn delediỽhaf gỽas oꝛ a welas * dyn eiryoet. Ac yna y kymeraffant hỽy blodeu y deri. a blodeu y banadyl. a blodeu yꝛ erwein. ac oꝛ rei hynny aſſỽynaỽ yꝛ un uoꝛỽyn deckaf a thelediwaf a welas dyn eiryoet. Ac bedydyaỽ oꝛ bedyd a wneynt yna. a dodi blodeuwed arnei. Gỽedy y kyſcu y gyt hỽy ar y wled. nyt haỽd heb y gỽydyon y ỽꝛ heb gyuoeth idaỽ oſſymdeithaỽ. Ie heb y math. mi arodaf idaỽ yꝛ un cantref goꝛeu y was ieuanc y gael. Arglỽyd heb ef pa gantref yỽ hỽnnỽ. Cantref dinodig heb ef. a hỽnnỽ a elwyꝛ yꝛ aỽꝛ honn eiwynyd. ac ardudỽy. Sef lle ar y cantref

y kyuanhedꝍys lys idaꝍ. yn y lle a elwir mur y castell. a hynny yg gꝍrthdir ardudꝍy. Ac yno y kyuanhedꝍys ef ac y gꝍledychꝍys. A phaꝍb a uu uodlaꝍn idaꝍ ac y arglꝍydiaeth. Ac yna dꝛeigylgꝍeith kyꝛchu a ꝍnaeth parth a chaer dathyl. y ymwelet a math uab mathonꝍy. Y dyd yd aeth ef parth a chaer dathyl. troi o vyꝍn y llys a wnaeth hi. A hi a glywei lef coꝛn. Ac yn ol llef y coꝛn. llyma hyd blin yn mynet heibaꝍ. a chꝍn a chynnydyon yn y ol. Ac yn ol y cꝍn ar kynnydyon bagat o wyꝛ ar traet yn dyuot. Mllyngꝍch was heb hi y wybot pꝍy y niuer racco. Y gꝍas a aeth. a gouyn pꝍy oedynt. Gꝛonꝍ pebyꝛ yꝍ hꝍnn. y gꝍꝛ yssyd arglꝍyd ar penllynn heb ꝍy. Hynny a dywaꝍt y gꝍas idi hitheu. Ynteu a gerdꝍys yn ol yꝛ hyd. Ac ar auon gynwael goꝛdiꝍes yꝛ hyd ae lad. Ac ꝍꝛth ulingaꝍ yꝛ hyd. a llithyaꝍ y gꝍn ef a uu yny wascaꝍd y nos arnaꝍ. A phan yttoed y dyd yn atueilaꝍ ar nos yn nessau. ef a doeth heb poꝛth y llys. Dioer heb hi ni a gaꝍn yn goganu gan yꝛ unben. oe adu y pꝛyttꝍn y wlat arall onys gꝍahodꝍn. Dioer arglꝍydes heb ꝍy iaꝍnaf yꝍ y wahaꝍd. Yna yd aeth kennadeu yn y erbyn y wahaꝍd. Ac yna y kymerth ef y wahaꝍd yn llaꝍen. Ac y doeth yꝛ llys. Ac y doeth hitheu yn y erbyn ef y ressaꝍu. ac y gyuarch gꝍell idaꝍ. Arglꝍydes heb ef duꝍ a dalho it dy leꝍenyd. Ymdiarchenu a mynet y eisted a ꝍnaethant. Sef a ꝍnaeth blodeued edꝛych arnaꝍ ef. Ac yꝛ aꝍꝛ yd edꝛychaꝍd nyt oed gyueir arnei hi ny bei yn llaꝍn oe gary*at ef. Ac ynteu a synnyꝍys arnei hitheu. Ar un medꝍl a doeth yndaꝍ ef ac a doeth yndi hitheu. ef ny allꝍys ymgelu oe uot

yn y charu hi. ae uenegi idi a ỽnaeth. Hitheu a gymerth diruaỽꝛ lewenyd yndi. Ac o achaỽs y ſerch ar caryat a dodaſſei bop un o honunt ar y gilyd y bu eu hymdidan y nos honno. Ac ny bu ohir y ymgael o honunt. nyt amgen noꝛ nos honno. Ar nos honno kyſcu y gyt a ỽnaethant. A thꝛannoeth arouun a ỽnaeth ef ymeith. Dioer heb hi nyt ey y ỽꝛthyf i heno. Y nos honno y buant y gyt heuyt. Ar nos honno y bu yꝛ ymgynghoꝛ gantunt pa furyf y keſſynt uot yg kyt. Nyt oes gynghoꝛ heb ef onyt un. keiſſaỽ y gantaỽ gỽybot pa ffuryf y del y angheu. a hynny yn rith amgeled am danaỽ. Tꝛannoeth arouun a ỽnaeth. Dioer heb hi ny chyghoꝛaf it hediỽ uynet y ỽꝛthyf i. Dioer kanys kynghoꝛy ditheu. nyt af ynheu heb ef. Mi a dywedaf hagen uot yn berigyl dyuot yꝛ unben bieu y ỻys adꝛef. Ie heb hi auoꝛy mi ath ganhataf di y uynet ymdeith. Tꝛannoeth arouun a ỽnaeth ef. ac nys ỻudywys hitheu ef. Ie heb ynteu coffa a dywedeis ỽꝛthyt ac ymdidan yn lut ac ef. a hynny yn rith yſmalhaỽch caryat ac ef. A dilyt y gantaỽ pa ffoꝛd y gaỻei dyuot y angheu. Ynteu a doeth adꝛef y nos honno. Tꝛeulaỽ y dyd a wnaethant dꝛỽy ymdidan a cherd a chyuedach. Ar nos honno y gyſcu y gyt yd aethant. Ac ef a dywaỽt parabyl ar eil ỽꝛthi. Ac yn hynny parabyl nys kauas ef. Pa derỽ ytti heb ef ac a wyt iach di. Medylyaỽ yd ỽyf heb hi yꝛ hynn nys medylyut ti am danaf i. Sef yỽ hynny heb hi goualu am dy angheu di ot elut yn gynt no miui. Ie heb ynteu duỽ a dalo itt dy amgeled. Onym ỻad i duỽ hagen nyt haỽd vy ỻad i

heb ef. a wney ditheu yr duw. ac yrof inheu. menegi y mi pa furyf y galler dy lad ditheu. Kanys gwell yw uyg cof i wrth ymoglyt nor teu di. Dywedaf yn llawen heb ef. nyt hawd uy llad i heb o ergyt. a reit oed uot vlwydyn yn gwneuthur y par ym byryit i ac ef.* a heb wneuthur dim o honaw namyn pan vydit ar yr aberth duw sul. ae diogel hynny heb hi. Diogel dioer heb ef. Ny ellir uy llad i y mywn ty heb ef. ny ellir allan. ny ellir uy llad ar uarch. ny ellir ar uyn troet. Je heb hitheu pa delw y gellit dy lad ditheu. Mi ae dywedaf ytti heb ynteu. Gwneuthur enneint im ar lan auon. a gwneuthur cromglwyt uch penn y gerwyn. ac thoi yn da ac yn didos wedy hynny. a dwyn bwch heb ef ae dodi ger llaw y gerwyn. a dodi o honaf inheu y neill troet ar geuyn y bwch. ar llall ar ymyl y gerwyn. pwy bynnac a medrei i uelly ef a wnaei uy ageu. Je heb hitheu diolchaf y duw hynny. ef a ellir rac hynny dianc yn hawd. Nyt kynt noc y kauas hi yr ymadrawd. y hanuones hitheu att gronw pebyr. Gronw a lauurywys gweith y gwaew. ar un dyd ym penn y vlwydyn y bu barawt. ar dyd hwnnw y peris ef idi hi wybot hynny. arglwyd hi yd wyf yn medylyaw pa delw y gallei uot yn wir a dywedeist di gynt wrthyf i. ac a dangossy di y mi pa ffuryf y sauut ti ar ymyl y gerwyn ar bwch o pharaf inheu yr enneint. Dangossaf heb ynteu. Hitheu a anuones att ronw. ac a erchis idaw uot y ghyscawt y brynn a elwir weithon brynn kyuergyr yg glan auon kynuael oed hynny. Hitheu a beris kynnullaw a gauas o auar yn y cantref. ae dwyn yr parth draw yr auon gyuarwyneb a brynn kyuergyr.

a thꝛannoeth hi a dywaỽt. arglỽyd heb hi mi a bereis kyweiryaỽ y glỽyt ar enneint y maent yn baraỽt. Ie heb ynteu aỽn y hedꝛych yn llaỽen. Wynt a doethant dꝛannoeth y edꝛych yꝛ enneint. Ti a ey yꝛ enneint arglỽyd heb hi. af yn llaỽen heb ef. Ef a aeth yꝛ enneint ac ymeneinaỽ a ỽnaeth. arglỽyd heb hi llyma yꝛ anniueileit a dyỽedeiſt di uot bỽch arnunt. Ie heb ynteu par dala un o honunt. a phar y dỽyn yma. ef a ducpỽyt y bỽch. Yna y kyuodes ynteu oꝛ enneint. a gỽiſcaỽ y laỽdyꝛ ymdanaỽ. a dodi y neill troet idaỽ ar ymyl y gerỽyn. ar llall ar geuyn y bỽch. Ynteu ronỽ a gyuotes y uynyd oꝛ bryn a elwir bꝛynn kyuergyꝛ.* ac ar ben y neill glin y kyuodes. ac ar gỽenỽyn waeỽ y uỽꝛỽ ae uedꝛu yn y yſtlys. yny neitta y paladyꝛ o honaỽ. a thꝛigyaỽ y penn yndaỽ. ac yna bỽꝛỽ ehetuan o honaỽ ynteu yn rith eryꝛ. a dodi garymleis anhegar. ac ny chahat y welet ef o hynny allan. Yn gyn gyflymet ac yd aeth ef ymeith. y kyꝛchaſſant ỽynteu y llys. ar nos honno kyſcu y gyt. A thꝛannoeth kyuodi a oꝛuc gronỽ a goꝛeſgȳ ardudỽy. Gỽedy goꝛeſgyn y wlat y gỽledychu a wnaeth yny oed yn y eidaỽ ef ardudỽy a phenllyn. Yna y chỽedyl a aeth at math uab mathonỽy. Tꝛymuryt a goueileint a gymerth math yndaỽ. a mỽy wydyon noc ynteu o laỽer. Arglỽyd heb y gỽydyon ny oꝛffowyſſaf uyth yny gaffỽyf chwedleu y ỽꝛth uy nei. Ie heb y math. duỽ a uo nerth itt. Ac yna kychỽynnu a ỽnaeth ef a dechꝛeu rodyaỽ racdaỽ. a rodyaỽ gỽyned a ỽnaeth a phoỽys yny theruyn. Gỽedy daruot idaỽ rodyaỽ uelly. ef a doeth hyt yn aruon. ac a doeth y ty uab

eillt ym maenaỽr bennard. Disgynnu yny ty a ỽnaeth a thrigyaỽ yno y nos honno. Gỽr y ty ae dylỽyth a doeth y myỽn. Ac yn diwethaf y doeth ymeichat. Gỽr y ty a dywaỽt ỽrth y meichat. Ha was heb ef a doeth dy hỽch di heno y myỽn. Doeth heb ynteu. yr aỽr honn y doeth att y moch. Pa ryỽ gerdet heb y gỽydyon yssyd ar yr hỽch honno. Pan agorer y creu beunyd yd a allan. ny cheir craff arnei. Ac ny wybydir pa ffordd yd a. mỽy no chynn elei yn y dayar. A wney di heb y gỽydyon y rof i nat agorych y creu. yny vỽyf i yn y neill parth yr creu y gyt a thi. gỽnaf yn llaỽen heb ef. Y gysgu yd aethant y nos honno. A phan welas y meichat lliỽ y dyd. ef a deffroes wydyon. A chyuodi a ỽnaeth gỽydyon a gỽisgaỽ ymdanaỽ. a dyuot y gyt ar meichat. a seuyll ỽrth y creu. Y meichat a agores y creu. y gyt ac y hegyr llyma hitheu yn bỽrỽ neit allan. A cherdet yn braff a ỽnaeth. A gydyon ae kanlynỽys. A chymryt gỽrthỽyneb auon a ỽnaeth. A chyrchu nant a ỽnaeth a elỽir weithon nant y lleỽ. Ac yno gỽastattau a ỽnaeth a phori. Ynteu wydyon a doeth y dan * y prenn. Ac a edrychaỽd pa beth yd oed yr hỽch yn y pori. Ac ef a welei yr hỽch yn pori kic pỽdyr a chynron. Sef a wnaeth ynteu edrych ym blaen y prenn. a phan edrych ef a ỽelei eryr ym blaen y prenn. A phan ymysgytỽei yr eryr. y syrthei y pryuet ar kic pỽdyr o honaỽ. Ar hỽch yn yssu y rei hynny. Sef a ỽnaeth ynteu medylyaỽ mae lleỽ oed yr eryr. a chanu eglyn. Dar a dyf y rỽng deu lenn. gordduwrych awyr a glen. ony dywetaf i eu oulodeu. lleỽ pan yỽ hynn. Sef

a ỽnaeth ynteu yꝛ eryꝛ. ymeỻỽng yny uyd yg kymherued y pꝛenn. Sef a wnaeth ynteu wydyon canu eglyn araỻ. Dar a dyf yn arduaes. nys gỽlych glaỽ. nys mỽ y taỽd. naỽ ugein angerd a boꝛthes. yn y blaen ỻeỽ ỻaỽ gyffes. Ac yna ymeỻỽng idaỽ ynteu yny uyd yn y geing iſſaf oꝛ pꝛenn. Canu eglyn idaỽ ynteu yna. Dar a dyf dan anwaeret. mirein medur ym ywet. ony dywedaf i ef. dydaỽ ỻeỽ ym harffet. Ac y dygỽydaỽd ynteu ar lin gỽydyon. Ac yna y treỽis gỽydyon a hutlath ynteu yny uyd yn y rith e hunan. Ny welſei neb ar ỽꝛ tremynt truanach hagen noc a oed arnaỽ ef. nyt oed dim onyt croen ac aſcỽꝛn. Yna kyꝛchu kaer dathyl a wnaeth ef. Ac yno y ducpỽyt agahat o uedic da yg gỽyned ỽꝛthaỽ. Kyn kyuyl yꝛ ulỽydyn yd oed ef yn hoỻiach. Arglỽyd heb ef ỽꝛth uath uab mathonỽy. madỽſ oed y mi kaffel iaỽn gan y gỽꝛ y keueis ouut gantaỽ. Dioer heb y math ny eiỻ ef ymgynnal ath iaỽn di gantaỽ. Ie heb ynteu goꝛeu yỽ gennyf i bo kyntaf y kaffỽyf iaỽn. Yna dygyuoꝛyaỽ gỽyned a ỽnaethant. a chyꝛchu ardudỽy. Gỽydyon a gerdỽys yn y blaen. A chyꝛchu mur caſteỻ a oꝛuc. Sef a ỽnaeth blodeued clybot eu bot yn dyuot. kymryt y moꝛynyon y gyt a hi. a chyꝛchu y mynyd. a thꝛỽy auon gynuael. kyꝛchu ỻys a oed ar y mynyd. Ac ny wydynt gerdet rac ovyn. namyn ac eu hỽyneb dꝛaec keuyn Ac yna ny wybuant yny ſyꝛthaſſant yn y ỻynn. Ac y bodyſſant oỻ eithyꝛ hi e hunan. Ac yna y goꝛdiwedaỽd gwydyon hitheu. ac y dywaỽt ỽꝛthi. Ny ladaf i di. mi a ỽnaf * yſſyd waeth itt. Sef yỽ hynny dy eỻỽng yn rith ederyn. Ac o achaỽs y

ke6ilyd a wnaethoſt di y le6 lla6 gyffes. na beidych ditheu dangos dy wyneb li6 dyd vyth. a hynny rac ouyn yꝛ holl adar. a bot yn anyan udunt dy uaedu. ath amherchi y lle yth gaffont. ac na chollych dy en6. namyn dy al6 vyth blodeuwed. Sef y6 blodeuwed tylluan oꝛ Ieith yꝛ a6ꝛ honn. ac o acha6s hynny y mae digaffa6c yꝛ adar yꝛ tylluan. ac ef a elwir ettwa y tylluan yn vlodeuwed. Ynteu gron6 pebyꝛ a gyꝛch6ys pennllynn. ac o dyno ymgennattau a wnaeth. Sef kennad6ꝛi a anuones. gouyn a wnaeth y le6 lla6 gyffes. a vynnei ae tir ae dayar ae eur ae aryant am y ſarhaet. Na chymeraf y du6 y dygaf uyg kyffes heb ef. a llyma y peth lleiaf a gymeraf y ganta6. Mynet yꝛ lle yꝛ oed6n i o hona6 ef pan ym byꝛya6d ar par. a minheu y lle yꝛ oed ynteu. a gadel y minheu y v6ꝛ6 ef a phar. a hynny yn lleihaf peth a gymeraf y ganta6. Hynny a uenegit y ron6 pebyꝛ. Je heb ynteu. dir y6 y mi g6neuthur hynny. Vyg gwyꝛda kywir am teulu am bꝛodyꝛ maeth. a oes o hona6ch ch6i a gymero yꝛ ergit dꝛoſſof i. Nac oes dioer heb 6ynteu. ac o acha6s gomed o honunt 6y. diodef un ergit dꝛos eu hargl6yd. y gelwir 6ynteu yꝛ hynny hyt hedi6. trydyd aniweir deulu. Je heb ef mi ae kymeraf. Ac yna y doethant ell deu hyt ar lann auon gynuael. Ac yna y ſeuiſ gron6 yn y lle yd oed lle6 lla6 gyffes pan y byꝛya6d ef. a lle6 yn y lle yd oed ynteu. Ac yna y dwa6t gron6 pebyꝛ 6ꝛth le6. argl6yd heb ef. kanys o dꝛyc yſtry6 g6ꝛeic y g6neuthum i ytti a wneuthum. Minneu a archaf y ti yꝛ du6. llech a welaf ar lan yꝛ auon. gadel im dodi honno

y ryngof ar dyʒnaỽt. Dioer heb y lleỽ nyth ommedaf o hynny. Je heb ef duỽ a dalo itt. Ac yna y kymerth gronỽ y llech. ac y dodes y ryngtaỽ ar ergit. Ac yna y byʒyaỽd lleỽ ef ar par. ac y gỽant y llech trỽydi. Ac ynteu dʒỽydaỽ yny dyʒr y geuyn. Ac yna y llas gronỽ pebyʒ. Ac yno y mae y llech ar lann auon gynuael yn ardudỽy ar tỽll trỽydi. Ac o ach*aỽs hynny ettwa y gelwir hi llech gronỽ. Ynteu lleỽ llaỽ gyffes eilweith a oʒesgynnỽys y wlat. ac ae gỽledychỽys yn llỽydyannus. A herwyd y dyweit y kyuarwydyt ef a uu arglỽyd wedy hynny ar wyned. Ac velly y teruyna y geing honn oʒ mabinogi. . . .

# Maxen's Dream.

## Nyma vꝛeid6yt maxen wledic.

Maxen wledic oed amhera6dyꝛ yn ruuein. a theccaf g6ꝛ oed a doethaf. a goꝛeu a wedei yn amhera6dyꝛ oꝛ a vu kyn noc ef. A dadleu bꝛenhined a oed arna6 diwarna6t. ac ef a dywa6t y annwyleit. Miui heb ef a vynnaf avoꝛy vynet y hela. Tꝛannoeth y boꝛe ef a gychwynnawd ae nifer [698] ac a doeth y dyffrynn auon a dyg6yd y ruuein. Hela y dyffrynn a wnaeth hyt pan vu hanner dyd. Yd oed gyt ac ef hagen deudec bꝛenhin ar hugeint o vꝛenhined coꝛona6c yna yn wyꝛ ida6. Nyt yꝛ digrif6ch hela yd helei yꝛ amhera6dyꝛ yn gyhyt a hynny. namyn y wneuth$^{ur}$ yn gyuurd g6ꝛ ac y bei argl6yd ar y ſa6l vꝛenhined hynny. Ar heul a oed yn vchel ar yꝛ awyꝛ. uch eu penn. Ar g6ꝛes yn va6ꝛ. a chyſcu a doeth arna6. Sef a wnaeth y weiſſon. ſeuyỻ kaſteỻu eu taryaneu yn y gylch ar peleidyꝛ g6aewar ~~ynygylch~~ rac yꝛ heul. Taryan eur gr6ydyꝛ a dodaſſant dan y penn. Ac ueỻy y kyſc6ys maxen. Ac yna y g6elei vꝛeid6yt. Sef bꝛeid6yt a welei. y uot yn kerdet dyffrynn yꝛ avon hyt y blaen. ac y vynyd

uchaf oꝛ byt y deuei. Ef a tebygei vot y mynyd yn gyfuch ar awyꝛ. A phan deuei dꝛoſ y mynyd. ef a welei y uot yn kerdet gỽladoed teccaf a gỽaſtattaf a welſei dyn eiryoet oꝛ parth arall yꝛ mynyd. A phꝛif auonyd maỽꝛ a welei oꝛ mynyd yn kyꝛchu y moꝛ. Ac yꝛ moꝛ rytyeu ar yꝛ auonyd y kerdei. Pyhyt bynnac y kerdei velly. ef a doeth y aber pꝛif auon vỽyhaf oꝛ a welſei neb. A phꝛif dinas a welei yn aber yꝛ auon. A phꝛif gaer yn y dinas. a phꝛif dyꝛoed amyl amliwaỽc a welei ar y gaer. A llynghes a welei yn aber yꝛ auon. A mỽyhaf llȳghes oed honno oꝛ a welſei neb eiryoet. A llong a welei ym plith y llynghes. A mỽy o laỽer a thegach oed honno noꝛ rei ereill oll. A welei ef vch y moꝛ oꝛ llong. y neill yſtyllen a welei ef yn eureit ar llall yn aryanneit. Pont a welei o aſcỽꝛn moꝛuil oꝛ llong hyt y tir. Ac ar hyt y bont y tebygei y vot yn dyuot yꝛ llong. Hỽyl a dyꝛcheuit ar y llong. Ac ar voꝛ a gỽeilgi y kerdit a hi. Ef a welei y dyuot y ynys deckaf oꝛ holl vyt. A gỽedy y kerdei ar dꝛaỽs yꝛ ynys oꝛ moꝛ py gilyd hyt yꝛ ymyl eithaf oꝛ ynys. Kȳmeu a welei a diffỽys a cherric uchel eithyꝛ agarỽ amdyfrỽys ny rywelſei eiryoet y gyfryỽ. Ac odyno ef a welei yn y moꝛ gyuarwyneb ar tir amd yfrỽys hỽnnỽ. ynys. Ac y rygtaỽ ar ynys honno y gỽelei ef gỽlat a oed kyhyt y maeſtir ae moꝛ. Kyhyt y mynyd ae choet. Ac oꝛ mynyd hỽnnỽ avon a welei yn kerdet aʀ traỽſ y ~~m~~ wlat yn kyꝛchu y moꝛ. Ac yn aber yꝛ auō ef a welei pꝛif gaer deckaf oꝛ a welſei dyn eiryoet. A phoꝛth y gaer a welei yn agoꝛet. A dyuot yꝛ * gaer a wnaeth. Ef a welei neuad dec yn y gaer.

toat y neuad atebygei y vot yn eur oll. Gant y neuad a tebygei y uot yn vein llywychedic gwyrthuawr ae gilid. Doreu y neuad a tebygei eu bot yn eur oll. lleithigeu eureit awelei yn y neuad. a byrdeu aryant. ar ar y lleithic kyfarwyneb ac ef y gwelei deu vackwy wineuon ieueinc yn gware gwydbwyll. Glawr aryant a welei yr wydbwyll. a gwerin eur arnei. Gwisc y mackwyeit oed bali purdu. a ractaleu o rudeur yn kynnal eu gwallt. a mein mawrweithawc llywychedic yndunt. Rudem a gem pob eilwerf yndunt. ac amherodron mein. Gwintaffeu o gordwal newyd am eu traet. a llafneu o rudeur yn eu kayu. ac ymon colofyn y neuad y gwelei gwr gwynllwyt y mywn cadeir o ascwrn eliphant. a delw deu eryr arnei o rudeur. Breichrwyfeu eur oed am y vreicheu. a modrwyeu amyl am y dwylaw. a gordtorch eur am y vynwgyl. a ractal eur yn kynnal y wallt. ac anfawd erdrym arnaw. Glawr o eur a gwybwyll rac y vronn. a llath eur yn y law. a llifeu dur. ac yn torri gwerin gwydbwyll. a morwyn a welei yn eifted rac y vronn y mywn kadeir o rudeur. mwy noc yd doed hawd difgwyl ar yr heul pan vei teckaf. nyt oed haws difgwyl arnei hi rac y thecket. Gryffeu o fidan gwynn a oed am y uorwyn. a chaeeu o rudeur rac y bronn. a swrcot o pali eureit ym danei. a ractal o rudeur am y phenn. a rudem a gem yn y ractal. a mein mererit pob eilwers. ac amherodron vein. A gwregis o rudeur ym danei. ac yn teckaf golwc o dyn edrych arnei. a chyuodi a oruc y uorwyn or gadeir racdaw. J dodi a wnaeth ynteu y dwylaw am vynwgyl y uorwyn. ac eisted a wnaethant ell deu

yn y gadeir eur. Ac nyt oed gyuyghach y gadeir udunt ell deu noc yꝛ uoꝛ6yn e hun. A phan yttoed ef ae d6yla6 am uyn6gyl y voꝛ6yn. ac ae rud 6ꝛth y grud hitheu. rac angerd y k6n 6ꝛth eu kynllauann. ac yſc6ydeu y taryaneu yn ymgyh6ꝛd y gyt. a pheleid^yr^ y g6aewar yn kyflad. a g6eryꝛat y meirch ac eu pyſtyl-at. Deffroi a wnaeth yꝛ amhera6dyꝛ. A phan deffroes. Hoedel nac einyoes * na bywyt nyt oed ida6 am y voꝛ6yn ry welſei tr6y y hun. Kyg6n vn aſc6ꝛn ynda6. na mynnwes vn ewin yghwaethach lle a vei v6y no h6nn6 nyt oed ny bei gyfla6n o garyat y uoꝛwyn. Ac yna y dywa6t y teulu 6ꝛtha6. Argl6yd heb 6ynt. neut ytti6 dꝛos amſer itt kymryt dy v6yt. Ac yna yd eſgynn6ys yꝛ amhera6d^yr^ ar y balffrey yn dꝛiſtaf g6ꝛ a welſei dyn eiryoet. ac y kerdwys y ryngta6 a ruuein. Ac uelly y bu yꝛ wythnos ar y hyt. Pan elhei y teulu y yvet y g6in ar med oꝛ eurleſtri. nyt aey ef y gyt a neb o nadunt 6y. Pan elhynt h6y y waranda6 kerd-eu a didan6ch. nyt aey ef y gyt ac 6ynt. Ac ny cheffit dim ganta6. namyn kyſcu yn gyfynychet ac y kyſgei. y wreic v6yhaf a garei a welei tr6y y hun. pꝛyt na chyſgei ynteu ny handei dim am danei. kany wydyat oꝛ byt pale yd oed. Ac y dywa6t g6aſ yſtafell 6ꝛtha6 diwarna6t. ac yꝛ y vot yn was yſtauell. bꝛenhin ro-mani oed. argl6yd heb ef y mae dy wyꝛ oll yth gablu. Paham y cablant 6y vyui heb yꝛ amhera6d^yr^. O ach-a6s na chaffant gennyt na neges nac atteb oꝛ a geiff g6yꝛ gan eu hargl6yd. a llyna yꝛ acha6s ar cabyl yſſyd arnat. Ha was heb yꝛ amhera6d^yr^. d6c ditheu doeth-on ruvein ym kylch i. a mi a dywedaf paham yd 6yf

triſt i. Ac yna y ducpỽyt doethon ruvein yg kylch yꝛ amheraỽd$^{yr}$. ac y dywaỽt ynteu. doethon ruuein heb ef. Bꝛeudỽyt a weleis i ac yny vꝛeudỽyt y gỽelỽn moꝛỽyn. Hoedyl na bywyt nac einoes nyt oes im am y voꝛỽyn. Arglỽyd heb ỽynteu. kanys arnam ni y berneiſt ti dy gyghoꝛ. ni ath gyghoꝛỽn di. a llyna an kyghoꝛ ni ytti. ellỽng kennadeu teir blyned y ter rann y byt. y geiſſaỽ dy vꝛeudỽyt. a chany ỽdoſt pa dyd pa nos y del chwedleu da attatt hynny o obeith ath geidỽ. Yna y kerdỽys y kennadeu hyt ym penn y vlwydyn y grỽytraỽ y byt ac y geiſſaỽ chỽedleu y ỽꝛth y vꝛeudỽyt. Pan doethan dꝛacheuyn ym penn y vlỽydyn. ny wydynt vn geir mỽy noꝛ dyd y kychwynnyſſant. a thꝛiſtau a oꝛuc yꝛ amheraỽdyꝛ yna o tebygu * na chaffei byth chwedleu am y wreic vỽyaf a garei. Ac yna y dywawaỽt bꝛenhin romani ỽꝛth yꝛ amheraỽdyꝛ. arglỽyd heb ef kychwyn y hela y ffoꝛd y gỽelut dy uot yn mynet ae parth ar dwyꝛein ae parth ar goꝛllewin. Ac yna y kychwynnỽys yꝛ amheraỽdyꝛ y hela. ac y doeth hyt yg glann yꝛ auon. llyma heb ef yd oedỽn i pann weleis y vꝛeudỽyt. ac y ghyueir blaen yꝛ auon y tu ar goꝛllewin y kerdỽn. Ac yna y kerdaſſant trywyꝛ ar dec yn gennadeu yꝛ amheraỽdyꝛ. ac oe blaen y gỽelſant mynyd maỽꝛ a debygynt y uot ỽꝛth yꝛ awyꝛ. Sef anſaỽd oed ar y kennadeu yn eu kerdetyat. vn llawes a oed ar gapan pob un o nadunt oꝛ tu racdaỽ yn arwyd eu bot yn gennadeu pa ryueltir bynnac y kerdynt yndaỽ na wnelit dꝛỽc udunt. Ac ual y doethant dꝛos y mynyd hỽnnỽ. wynt a welynt gỽladoed maỽꝛ gwaſtat.

a phrif ouonyd drwydunt yn kerdet. Llyma heb wynt y tir a welas an harglwyd ni. Yr mor rydyeu ar yr auonyd y kerdassant. yny doethant y prif auon a welynt yn kyrchu y mor. a phrif dinas yn aber yr auon. a phrif gaer yn y dinas. a phrif dyroed amliwawc ar y gaer. Llyghes vwyhaf or byt a welynt yn aber yr auon. a llog oed vwy noc vn or rei ereill. llyman ettwa heb yr wynt y breudwyt a welas an harglwyd ni. Ac yn y llog uawr honno y kerdassant ar y mor. ac y doethant y ynys pr^ydein. ar ynys a gerdassant yny doethant y eryri. Llyman ettwa heb yr wynt y tir amdyfrwys a welas an harglwyd ni. wynt a doethant racdunt yny welynt mon gyuarwyneb ac wynt. ac yny welynt heuyt aruon. llyma heb wynt y tir a welas an harglwyd ni trwy y hun. ac aber sein a welynt ar gaer yn aber yr auon. Porth y gaer a welynt yn agoret. Yr gaer y doethant. neuad a welsant y mywn y gaer. Llyman heb wynt y neuad a welsam ni trwy y hun. wynt a doethant yr neuad. ac wynt a welsant y deu vackwy yn gware yr wydbwyll. ar y lleithic eur. Ac a welsant y gwr gwynllwyt y mon y golofyn. yn y gadeir ascwrn yn torri gwerin yr wydbwyll. ac a welsant y uorwyn yn eisted y mywn * cadeir o rud eur. a gostwng ar tal eu glinyeu a wnaethant y kennadeu. amherodres ruuein hanpych gwell. Ha wyrda heb y uorwyn ansawd gwyr dylyedawc a welaf arnawch. ac arwyd kenadeu. Pywattwar a wnewch chwi am danafi. Na wnawn arglwydes vn gwattwar am danat. Namyn amherawd^yr ruuein ath welas trwy y hun. Hoedel nac einyoes nyt oes idaw am danat. Dewis arglwydes

a geffy y gennym ni. ae dyuot gyt a ni yth wneuthur yn amherodꝛes yn ruuein. ae dyuot yꝛ amheraỽdyꝛ yma yth gymryt yn wreic idaỽ. Ha wyꝛda heb y uoꝛỽyn amheu yꝛ hynn a dywedỽch chỽi nyſ gỽnaf i. Mae gredu heuyt yn oꝛmod. Namyn os miui a gar yꝛ amheraỽdyꝛ. deuhet hyt yman ym ol. ac y rỽng dyd a nos y kerdaſſant y kenadeu dꝛacheuyn. ac ual y diffykyei eu meirch y pꝛynynt ereill o newyd. Ac ual y doethant hyt yn ruuein. kyuarch gỽell yꝛ amheraỽdyꝛ a ỽnaethant. ac erchi eu koeluein. a hynny a gaỽſſant ual y notteynt. Ni a vydỽn gyuarỽyd itt arglỽyd heb ỽynt ar voꝛ ac ar tir hyt y lle y mae y wreic vỽyhaf a gery. a ni a wdam y henỽ ae chyſtlỽn ae boned. ac yn diannot y kerdỽys yꝛ amheraỽdyꝛ yn y luyd. ar gỽyꝛ hynny yn gyuarwyd udunt. Parth ac ynys p$^{ry}$dein y doethant dꝛos voꝛ a gỽeilgi. Ac y goꝛeſgynnỽys yꝛ ynys ar veli mab manogan ae ueibon. ac y gyꝛrỽys ar uoꝛ wynt. ac y deuth racdaỽ hyt yn aruon. ac yd adnabu yꝛ amheraỽdyꝛ y wlat mal y gỽelas. Ac ual y gỽelas kaer aber sein. wel dy racco heb ef y gaer y gỽeleis i y wreic vỽyhaf a garaf yndi. ac y doeth racdaỽ yꝛ gaer. ac yꝛ neuad. Ac y gỽelas yno kynan uab eudaf. ac adeon uab eudaf yn gỽare yꝛ wydbỽyll. ac a welas eudaf uab karadaỽc. yn eiſted y myỽn kadeir o aſcỽꝛn yn toꝛri gỽerin yr ỽydbỽyll. Y uoꝛwyn a welas trỽy y hun ef ae gwelei yn eiſted y myỽn kadeir o eur. amherodꝛes ruuein heb ef hanpych gỽell. A mynet dỽylaỽ mynỽgyl idi a wnaeth yꝛ amheraỽdyꝛ. Ar nos honno y kyſgỽys genthi. A thꝛannoeth y boꝛe yd erchis y uoꝛỽyn y

hagỽedi am y chaffel yn uoꝛwyn. Ac yntev a erchis idi nodi y hagwedi. A hitheu a nodes * ynys pꝛydein yỽ that. o voꝛ rud hyt ym moꝛ Iwerdon. ar teir rac ynys y dala dan amherodꝛes ruuein. A gỽneuthur teir pꝛif gaer idi hitheu yn y lle y dewiſſei yn ynys pʳʸdein. Ac yna y dewiſſaỽd gỽneuthur y gaer uchaf yn aruon idi. Ac y ducpỽyt egỽeryt ruuein yno. hyt pann uei iachuſſach yꝛ amheraỽdyꝛ y gyſcu. Ac y eiſted ac y ymdeith. Odyna y gỽnaethpỽyt y dỽy gaer ereill idi. Nyt amgen kaer llion a chaer vyꝛdin. A diwarnaỽt yd aeth yꝛ amheraỽdyꝛ y hela y gaer vyꝛdin. Ac yd aeth hyt ym penn y vꝛevi vaỽꝛ. A thynnv pebyll a wnaeth yꝛ amhaỽdyꝛ yno. A chadeir vaxen y gelwir y pebyllua honno yꝛ hyt hediỽ. O achaỽs ynteu gỽneuthur y gaer o vyꝛd o wyꝛ y gelwit kaer vyꝛdin. O dyna y medylywys elen gỽneuthur pꝛif ffyꝛd o bob kaer hyt y gilyd ar traỽs ynys pꝛydein. ac y gỽnaethpwyt y ffyꝛd. Ac o achaỽs hynny ~~y gỽnaethpỽ~~ y gelwir ỽynt ffyꝛd elen luydaỽc ỽꝛth y hanuot hi o ynys pꝛydein. Ac na wnaei wyꝛ ynys pꝛydein y lluydeu maỽꝛ hynny y neb namyn idi hi. Seith mlyned y bu yꝛ amheraỽdyꝛ yn yꝛ ynys honn. Sef oed deuaỽt gỽyꝛ ruuein yn yꝛ amſer hỽnnỽ. Pa amheraỽdyꝛ bynnac a drickyei yg gỽladoed ereill yn kynnydu ſeith mlynᵉᵈ. trickyei ar y oꝛeſcyn. Ac ny chaffei dyuot y ruvein dꝛacheuyn. Ac yna y gỽnaethāt ỽynteu amheraỽdyꝛ new. Ac yna y gỽnaeth hỽnnỽ lythyꝛ bygỽth ar vaxen. Nyt oed hagen o lythyꝛ. namyn o deuy di Ac o deuy di byth y ruuein. Ac hyt yg kaer llion y doeth y llythyꝛ hỽnnỽ ar uaxenn ar chỽedleu. Ac

o dyna yd anuones ynteu lythyꝛ ar y gỽꝛ a dywedei y uot yn amheraỽdyꝛ yn ruuein. Nyt oed yn y ỻythyꝛ hỽnnỽ heuyt dim. namyn ot af ynheu y ruuein ac ot af. Ac yna y kerdwys Maxen yn y luyd parth a ruuein. Ac y goꝛeſgynnỽys ffreinc a bỽꝛgỽyn ar hoỻ wlatoed hyt yn ~~ffreinc~~ ruuein. Ac yd eiſtedaỽd ỽꝛth gaer ruuein. Blỽydyn y bu yꝛ amheraỽdyꝛ ỽth y gaer. nyt oed nes idaỽ y chael noꝛ dyd kyntaf. Ac yn y ol ynteu y doeth bꝛodyꝛ y elen luydaỽc o ynys Bꝛydein a ỻu bychan gantunt. a gỽeỻ ymladwyꝛ oed yn y ỻu by*chan hỽnnỽ. noc eu deu kymeint o wyꝛ Ruuein. Ac y dyweſpỽyt yꝛ amheraỽdyꝛ o welet y ỻu yn diſgynnv yn ymyl y lu ynteu ac yn pebyỻyaỽ. Ac ny welſei dyn eiryoet ỻu degach na chyweirach nac arỽydon hardach noc oed hỽnnỽ yn y ueint. Ac y doeth elen y etrych y ỻu. Ac yd adnabu arỽydon y bꝛodyꝛ. Ac yna y doeth kynan uab eudaf ac adeon uab eudaf y ymwelet ar amheraỽdyꝛ. Ac y bu lawen yꝛ amheraỽdyꝛ ỽꝛthunt. Ac yd aeth dỽylaỽ mynỽgyl udunt. Ac yna yd edꝛychaſſant ỽy ar wyꝛ ruuein yn ymlad ar gaer. Ac y dywaỽt kynan ỽꝛth y vꝛaỽt. Nyni a geiſſỽn ymlad ar gaer yn gaỻach no hynn. Ac yna y meſſuraſſant ỽynteu hyt nos uchet y gaer. Ac yd eỻygaſſant eu ſeiri yꝛ koet. Ac y gỽnaethpỽyt yſcaỽl y pob petwar gỽyr o nadunt. A gỽedy bot hynny yn baraỽt gantunt. Peunyd pob hanner dyd y kymerei y deu amheraỽdyꝛ eu bỽyt. Ac y peidynt ac ymlad o bop parth yny darffei y baỽp vỽytta. Ar boꝛedyd y kymerth gỽyꝛ ynys eu bỽyt. Ac yvet a wnaethant yny yttoedynt vꝛỽyſkeit. A phan yttoedynt y deu am-

heraỽdyꝛ ar eu bỽyt y doeth y bꝛytanyeit ỽꝛth y gaer a dodi eu hyſgolyon ỽꝛthi. ac yn diannot yd aethant dꝛos y gaer y myỽn. Hy chauas yꝛ amheraỽdyꝛ newyd aruot y wiſgaỽ y arueu ymdanaỽ. yny doethant am y penn ae lad. a llawer y gyt ac ef. a theirnos a thꝛidieu y buant yn gỽaſtattau y gỽyꝛ a oedynt yny gaer ac yn goꝛeſgyn y kaſtell. Ar ranneu ereill o nadunt yn cadỽ y gaer rac dyuot neb o lu maxen idi. yny darffei udunt hỽy gỽaſtatau paỽb ỽꝛth eu kyghoꝛ. Ac yna y dywaỽt Maxen ỽꝛth elen luydaỽc. Ryued maỽꝛ yỽ gennyf i arglỽydes heb ef nat y mi y goꝛeſgynnei dy vꝛodyꝛ di y gaer honn. Arglỽyd amheraỽdyꝛ heb hitheu. gỽeiſſon doethaf oꝛ byt yỽ vym bꝛodyꝛ i. a dos ditheu racco y erchi y gaer. ac os ỽynteu ae med hi. ti ae keffy yn llawen. Ac yna y doeth yꝛ amheraỽdyꝛ ac elen y erchi y gaer. Ac y dywedaſſant ỽynteu ỽꝛth yꝛ amheraỽdyꝛ. nat oed weithꝛet y neb y gaffel y gaer. nac yỽ rodi idaỽ ynteu. na*myn y wyꝛ ynys Pꝛydein. ac yna yd agoꝛet pyꝛth kaer ruuein. ac yd eiſtedwys yꝛ amheraỽdyꝛ yny gadeir. Ac y gỽedwys idaỽ paỽb o wyꝛ ruuein. Ac yna y dywaỽt yꝛ amheraỽdyꝛ ỽꝛth gynan ac adeon. Hawyꝛda heb ef cỽbyl a geueis i om amherodꝛaeth. ar llu hỽnn mi ae rodaf y chỽytheu y oꝛeſgyn y gyueir y mynnoch ar y byt. ac yna y kerdaſſant ỽynteu ac y goꝛeſgynnaſſant gỽledyd a cheſtyll a dinaſſoed. ac y lladaſſant eu gỽyꝛ oll. ac y gadaſſant y gỽꝛaged yn vyỽ. Ac uelly y buant yny yttoed y gỽeiſſon ieueinc a dathoed y gyt ac ỽynt yn wyꝛ llwydon. rac hyt y buaſſynt yny goꝛeſgyn hỽnnỽ. Ac yna y dywaỽt kynan ỽꝛth adeon y vꝛaỽt. Beth

a vỹny di heb ef ae trigyaỽ yny wlat honn. Ae mynet yꝛ wlat yd hanỽyt o honei. Sef y kauas yny gyghoꝛ mynet y wlat a llawer y gyt ac ef. Ac yno y trigywys kynan ar rann arall gyt ac ef y pꝛesſỽylaỽ. Ac y kaỽssant yn eu kyghoꝛ llad tauodeu y gỽꝛaged. rac llygru eu hieith. Ac o achaỽs tewi oꝛ gỽꝛaged ac eu hieith. y gelỽit gwyꝛ llydaỽ bꝛytaen. Ac odyna y doeth yn vynych o ynys pꝛydein ac ettwa y daỽ yꝛ ieith honno. Ar chwedyl hỽnn a elwir. Bꝛeudỽyt maxen wledic amheraỽd[yr] ruuein. Ac yman y mae teruyn arnaỽ. . .

# Lludd and Llevelys.

## Llyma gyfranc llud a lleuelis.

Yꝛ beli maỽꝛ uab manogan y bu tri meib. llud. a chaſſwallaỽn. a nynnyaỽ. a herỽyd y kyuarwydyt pedweryd mab idaỽ uu lleuelys. A gỽedy marỽ beli a dygỽydaỽ teyꝛnas ynys pꝛydein yn llaỽ llud. y uab yꝛ hynaf. ae llywyaỽ o lud hi yn llỽydyannus. ef a atnewydwys muroed llundein. o anriuedic tyꝛoed ae damgylchynỽys. A gỽedy hynny a oꝛchymynnỽys yꝛ kiwtawtwyꝛ adeilat tei yndi megys na bei yn y teyꝛnaſſoed. tei kyfurd ac a uei yndi. Ac y gyt a hynny ymladwꝛ da oed. a hael ac ehalaeth y rodei vỽyt a diaỽt y baỽb or ae keiſſei. A chyt bei lawer o geyꝛyd a dinaſſoed idaỽ honn a garei ef yn vỽy noꝛ vn. Ac yn honno y preſſỽylei y rann vỽyhaf oꝛ vlỽydyn. Ac ỽꝛth hynny y gelwit hi kaer lud. Ac oꝛdiwed kaer lundein. A gỽedy dyuot eſtraỽn genedyl idi. y gelwit hi lundein. neu ynteu lỽndꝛys. * Mỽyhaf oe vꝛodyꝛ y karei lud y lleuelys. kanys gỽꝛ pꝛud a doeth oed. A gỽedy clybot ryuarỽ bꝛenhin heb adaỽ etiued idaỽ namyn vn uerch. Ac adaỽ y kyuoeth yn llaỽ honno. ef a doeth att lud y vꝛaỽt

y erchi kyghoꝛ a nerth idaỽ. Ac nyt ynvỽyhaf yꝛ lles idaỽ ef. namyn yꝛ keiſſaỽ achwanegu enryded ac vꝛdas a theilyngdaỽt y eu kenedyl o gallei vynet y teyꝛnas ffreinc y erchi y uoꝛỽyn honno yn wreic idaỽ. Ac yn y lle y vꝛaỽt a gytſynnyaỽd ac ef. Ac a uu da gantaỽ y gyghoꝛ ar hynny. Ac yn y lle paratoi llongeu ac eu llanỽ o varchogyon arvaỽc. a chychwyn parth a ffreinc. Ac yn y lle gỽedy eu diſgynnu. Anuon kenadeu a oꝛugant y uenegi y wyꝛda freinc yſtyꝛ y neges y dothoed oe cheiſſaỽ. Ac o gyt gyghoꝛ gỽyꝛda freinc ae thywyſſogyon y rodet y uoꝛwyn y leuerys a choꝛon y deyꝛnas y gyt a hi. A gỽedy hynny ef a lywyaỽd y gyuoeth yn pꝛud ac yn doeth. ac yn detwyd hyt tra barhaaỽd y oes. A gỽedy llithꝛaỽ talym o amſer. teir goꝛmes a dygỽydwys yn ynys pꝛydein. ar ny welſei neb oꝛ ynyſſed gynt eu kyfryỽ. Kyntaf o nadunt oed ryỽ genedyl a doeth a elwit y coꝛanneit. A chymeint oed eu gỽybot ac nat oed ymadꝛaỽd dꝛos wyneb yꝛ ynys yꝛ iſſet y dywettit oꝛ kyuarffei y gỽynt ac ef nys gỽypynt. Ac ỽꝛth hynny ny ellit dꝛỽc udunt. Yꝛ eil oꝛmes oed. diaſpat a dodit pob nos kalan mei. vch bob aelỽyt yn ynys p$^{ry}$dein. A hōno a aei trỽy gallonneu y dynyon. ac ae hoſnockaei yn gymeint ac y collei y gỽyꝛ eu lliỽ ac eu nerth. Ar gỽꝛaged eu beichogyeu. Ar meibon ar merchet a gollynt eu ſynhỽyꝛeu. Ar holl aniueileit ar gỽyd ar dayar. Ar dyfred a edewit yn diffrỽyth. Tꝛyded oꝛmes oed yꝛ meint uei y darmerth ar arlỽy. a barattoit yn llyſſoed y bꝛenhin. kyt bei arlỽy vlỽydyn o vỽyt a diaỽt. ny cheffit vyth dim o honaỽ. namyn

a treulit yꝛ vn nos gyntaf. ar dỽy oꝛmes ereill nyt oed neb a wyppei pa yſtyꝛ oed ud|dunt. Ac ỽꝛth hynny mỽy gobeith oed kaffel gỽaret oꝛ gyntaf. noc oed oꝛ eil neu oꝛ dꝛyded. Ac ỽꝛth hynny llud vꝛenhin a gymerth pryder maỽꝛ a goual yndaỽ. kany wydyat pa ffoꝛd y kaffei waret rac y goꝛmeſſeu hynny. A galỽ attaỽ a oꝛuc holl wyꝛda y gyuoeth. a gouyn kyghoꝛ udunt pa beth a wnelynt yn erbyn y goꝛmeſſoed hynny. Ac o gyf*fred gyghoꝛ y wyꝛda. llud uab beli a aeth att leuelis y vꝛaỽt bꝛenhin freinc. kanys gỽꝛ maỽꝛ y gygoꝛ a doeth oed hỽnnỽ y geiſſaỽ kyghoꝛ y gantaỽ. Ac yna parattoi llyghes a wnaethant. a hynny yn dirgel ac yn diſtaỽ. rac gỽybot oꝛ genedyl honno yſtyꝛ y neges. nac o neb dy eithyꝛ y bꝛenhin ae gyghoꝛwyꝛ. A gỽedy eu bot yn baraỽt ỽynt a aethant yn eu llynghes. llud ac aetholc y gyt ac ef. a dechꝛeu rỽygaỽ y moꝛoed parth a freinc. a gỽedy dyuot y chwedleu hynny att leuelis. kany wydyat achaỽs llyghes y vꝛaỽt. y doeth ynteu oꝛ parth arall yn y erbyn ef. a llynghes gantaỽ diruaỽꝛ y meint. A gỽedy gỽelet o lud hynny. ef a edewis y holl longeu ar y weilgi allan dy eithyꝛ vn llong. ac yn yꝛ vn honno y doeth yn erbyn y vꝛaỽt. Ynteu y myỽn vn llong arall a doeth yn erbyn y vꝛaỽt. a gỽedy eu dyuot y gyt pob un o nadunt a aeth dỽylaỽ mynỽgyl y gilyd. ac o vꝛaỽdoꝛyaỽl garyat pob vn a reſſawaỽd y gilyd o nadunt. A gỽedy menegi o lud y vꝛaỽt yſtyr y neges. lleuelis a dywaỽt y gỽydyat e hun yſtyꝛ y dyuodyat yꝛ gỽladoed hynny. Ac odyna y kymeraſſant kyt gyghoꝛ y ymdidan am eu negeſſeu yn amgen no hynny. megys nat elei y gỽynt

am eu hymadꝛaỽd. rac gỽybot oꝛ coꝛannyeit a dywettynt. Ac yna y peris lleuelis gỽneuthur coꝛn hir o euyd. a thꝛỽy y coꝛn hỽnnỽ ymdywedut. a phy ymadꝛaỽd bynnac a dywettei yꝛ vn o nadunt ỽꝛth y gilyd. trỽy y coꝛn. ny dodei ar yꝛ vn o nadunt. namyn ymadꝛaỽd go atcas gỽꝛthỽyneb. a gỽed gỽelet o leuelis hynny a bot y kythꝛeul yn eu llesteiryaỽ. ac yn teruyscu trỽy y coꝛn. y peris ynteu dodi gỽin yn y coꝛn ae olchi. a thꝛỽy rinnwed y gỽin gyꝛru y kythꝛeul oꝛ coꝛn. A gỽedy bot ~~eu bot~~ eu hymadꝛaỽd yn dilesteir. y dywaỽt lleuelis ỽꝛth y vꝛaỽt y rodei idaỽ ryỽ bꝛyuet. a gadu rei o nadunt yn vyỽ y hiliaỽ. rac ofyn dyuot eilweith o damwein y ryỽ oꝛmes honno. a chymryt ereill oꝛ pꝛyuet ae bꝛiwaỽ ym plith dỽuyꝛ. ac ef a gadarnhaei bot yn da hynny y distriỽ kenedyl y coꝛanyeit. Hyt amgen gỽedy y delei adꝛef y deyꝛnas. dyuynnu yꝛ holl bobyl y gyt y genedyl ef. a chenedyl y coꝛanyeit yꝛ vn dadleu. ar uedỽl gỽneuthur tageued y ryg*tunt. A phan vei baỽp o nadunt y gyt. kymryt y dỽuyꝛ rinwedaỽl hỽnnỽ. ae vỽꝛỽ a paỽp yn gyfredin. Ac ef a gadarnhaei y gỽennỽynei y dỽfyꝛ hỽnnỽ genedyl y coꝛannyeit. ac na ladei. ac nat eidigauei neb oe genedyl ehun. Yꝛ eil oꝛmes heb ef yssyd yth gyuoeth di. dꝛeic yỽ honno. a dꝛeic estraỽn genedyl arall yssyd yn ymlad a hi. ac yn keissaỽ y goꝛesgynn. ac ỽꝛth hynny heb y dyt ych dꝛeic chỽi diaspat engiryaỽl. Ac ual hynny y gelly kaffel gỽybot hynny. Gỽedy delych atref. par uessuraỽ yr ynys oe hyt ae llet. ac yn y lle y keffych di y pỽnt perued yn iaỽn. par gladu y lle hỽnnỽ. ac odyna par dodi

ker6yneit oꝛ med goꝛeu a aỻer y wneuthur y my6n y clad h6nn6. a ỻenn opali ar wyneb y gerwyn. Ac odyna yth perſon dy hunan. byd yn g6yla6. Ac yna ti a wely y dꝛeigeu yn ymlad yn rith aruthter anifeileit. Ac oꝛ diwed ydant yn rith dꝛeigeu yn yꝛ awyꝛ. Ac yn diwethaf oỻ g6edy darffo udunt o engirya6l a girat ymlad vlina6. 6ynt a ſyrthant yn rith deu barcheỻ hyt ar y ỻenn. Ac a ſudant gantunt y ỻenn. Ac ae tynnant hyt yg g6aela6t y gerwyn. Ac a yvant y med yn g6byl. Ac a gyſcant g6edy hynny. Ac yna yn y ỻe plycca ditheu y ỻenn yn eu kylch 6ynteu. Ac yn y ỻe kadarnhaf a geffych yth gyfoeth y my6n kiſt uaen clad 6ynt. A chud y my6n y daear. A hyt tra vont h6y yn y ỻe kadarn h6nn6. ny da6 goꝛmes y ynys pꝛydein ole araỻ. A cha6s y tryded oꝛmes y6 heb ef. G6ꝛ ỻeturitha6c kadarn yſſyd yn d6yn dy v6yt ath lyn ath darmerth. A h6nn6 te6 y6 y hut ae leturith a beir y ba6p kyſcu. Ac 6ꝛth hynny y mae reit y titheu yth perſſon dy hun g6yla6 dy wledeu ath ar6yleu. Ac rac goꝛuot oe gyſcu ef arnat. bit ger6ynet o d6fyꝛ oer geyꝛ dy la6. A phan vo kyſgu yn treiffa6 arnat. dos y my6n y gerwyn. Ac yna yd ymchoeles ỻud dꝛacheuyn y wlat. Ac yn diannot y dyuynn6ys atta6 pa6b yn ỻ6yꝛ oe genedyl ef. ac oꝛ coꝛanneit. Ac megys y dyſga6d ỻeuelis ida6. bꝛiwa6 y pꝛyuet a oꝛuc ymplith y d6fyꝛ. A b6ꝛ6 h6nn6 yn gyffredin ar ba6p. Ac yn diannot y diffeitha6d hoỻ giwta6t y coꝛanneit uelly heb echꝛys ar neb oꝛ bꝛytanyeit. Ac ym penn yſpeit g6edy hynny. ỻud a beris meſſura6 yꝛ ynys ar y hyt ac ar y ỻet. * Ac yn ryt ychen y cauas y p6ynt

perued. ac ynyỻe hỽnnỽ yperis cladu y dayar. ac ynyclad hỽnnỽ goſſot kerwyn ynỻaỽn oꝛ med goꝛeu aaỻwyt y wneuthur. a ỻenn opali ar y wyneb. Ac ef e hun ynos honno yngỽylyat. ac ual yd oed ueỻy. ef awelas ydꝛeigeu yn ymlad. A gỽedy blinaỽ onadunt adiffygyaỽ. ỽynt a diſgynnaſſant ar warthaf y ỻenn. ae thynnu gantunt hyt yg gỽaelaỽt ygerỽyn. a gỽedy daruot ud|dunt yuet ymed. kyſcu aoꝛugant. ac yneu kỽſc ỻud ablygỽys y ỻenn yneu kylch. ac yny ỻe diogelaf agauas yn eryri ymyỽn kiſt vaen ae kudywys. Sef ffuruf ygelwit y ỻe hỽnnỽ gỽedy hynny. dinas emreis. a chyn no hynny dinas ffaraon dande. Tꝛydyd crynweiſſat uu hỽnnỽ a toꝛres y gallon anniuiged. ac ueỻy ypeidywys ydymheſtlus diaſpat aoed yny kyuoeth. A gỽedy daruot hynny. ỻud vꝛenhin aberis arlỽy gỽled diruaỽꝛ y meint. agỽedy ybot ynbaraỽt goſſot kerwyn yn ỻaỽn odỽfyꝛ oer geyꝛ ylaỽ. Ac ef ehun yny pꝛiaỽt perſon ae gỽylwys. ac ual y byd ueỻy yn wiſcedic o arueu‿ val am y tryded wylua oꝛ nos. nachaf y clyỽ ỻawer o didaneu odidaỽc. ac amryuaelyon gerdeu. a hun yny gymeỻ ynteu y gyſcu‿ Ac ar hynny ſef aoꝛuc ynteu rac ỻeſteiryaỽ ar ydarpar ae oꝛthꝛymu oe hun. mynet yn vynych yny dỽfyꝛ. ac yny diwed nachaf gỽꝛ diruaỽꝛ y veint yn wiſcedic o arueu trymyon kadarn yn dyuot y myỽn a chaweỻ gantaỽ. ac megys y gnottayſſei yndodi yꝛ hoỻ darmerth ar arlỽy ovỽyt aỻyn yny caweỻ. ac yn kychwynv ac ef ymeith. ac nyt oed dim ryuedach gan lud noc eigaỽ yny kaweỻ hỽnnỽ peth kymeint a hynny. ac ar hynny ỻud

vꝛenhin agychwynnỽys yny ol. Ac adywaỽt ỽꝛthaỽ val hyñ. Arho Arho heb ef. kyt rywnelych di ſarhaedeu llawer a cholledeu kynno hynn. nys gỽney bellach. ony barn dy vilwryaeth dy uot yn dꝛech ac yn dewrach no mi. Ac yn diannot ynteu aoſſodes y kawell ar y llaỽꝛ. Ac ae arhoes ef attaỽ. Ac angerdaỽl ymlad avu y rygtunt. yny oed y tanllachar yn ehedec oꝛ arueu. Ac oꝛ diwed ymauael aoꝛuc llud ac ef. Ar dyghetuen awelas damwheinaỽ y uudugolyaeth y lud. gan vỽꝛỽ yꝛ oꝛmes yryngtaỽ ar * daear. A gỽedy goꝛuot arnaỽ o rym ac angerd. erchi naỽd aoꝛuc idaỽ. Pa wed heb y bꝛenhin y gallỽn i rodi naỽd ytti wedy y gyniuer collet a ſarhaet rywnaethoſt titheu ymi. Py holl golledeu eiryoet heb yꝛ ynteu oꝛ awneuthum i ytti. mi ae henillaf itt yn gyſtal ac y dugym. Ac ny wnaf y gyffelyb o hynn allan. A gỽꝛ ffydlaỽn vydaf i ytti bellach. Ar bꝛenhin a gymerth hynny y gantaỽ. Ac uelly y gỽaredaỽd llud y teir goꝛmes y ar ynys pꝛydein. Ac o hynny hyt yn diwed y oeſ yn hedỽch lỽydyannus y llywyaỽd llud uab beli ynys pꝛydein. Ar chwedyl hỽnn a elwir kyfranc llud a lleuelys. Ac uelly y teruynha. . .

0.5919.

VAN